# Erthygl 13 – Gwneud Penderfyniadau

## 13.01 Cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi ac yn cadw cofnod cyfredol o ba ran o'r Cyngor neu'r unigolyn sydd â chyfrifoldeb am wahanol fathau o benderfyniadau neu benderfyniadau sy'n ymwneud â meysydd neu swyddogaethau arbennig. Cyflwynir y cofnod hwn yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn.

## 13.02 Egwyddorion gwneud penderfyniadau

Gwneir holl benderfyniadau'r Cyngor yn unol â'r egwyddorion canlynol :

(a) bod yn gymesur (h.y. rhaid i'r camau gweithredu fod yn gymesur â'r canlyniad a ddeisyfir);
(b) ymgynghori'n briodol a chymryd cyngor proffesiynol gan swyddogion;
(c) parchu hawliau dynol (gweler isod am ragor o fanylion);
(d) rhagdybiaeth o blaid bod yn agored; a
(e) bod yn glir ynghylch nodau a'r canlyniadau a ddeisyfir.
(f) cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad ynghyd â chofnodi unrhyw fuddiant personol a ddatgelir, unrhyw hawl i siarad a ganiateir gan bwyllgor safonau'r Awdurdod, a manylion am yr ymgynghori a wnaed.

## 13.03 Penderfyniadau a gedwir i'r Cyngor llawn

Gwneir penderfyniadau sy'n ymwneud â'r swyddogaethau a restrir yn Erthygl 4.02 gan y Cyngor llawn ac ni fyddant yn cael eu dirprwyo oni nodir fel arall.

## 13.04 Gwneud penderfyniadau gan y Cyngor llawn

Yn ddarostyngedig i Erthygl 13.08, bydd cyfarfod o'r Cyngor yn dilyn Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

## 13.05 Gwneud penderfyniadau gan y Bwrdd Gweithredol

Yn ddarostyngedig i Erthygl 13.08, bydd y Bwrdd Gweithredol yn dilyn Rheolau Gweithdrefnau'r Weithrediaeth a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

## 13.06 Gwneud penderfyniadau gan bwyllgorau craffu

Bydd pwyllgorau craffu yn dilyn y Rheolau Gweithdrefnau Craffu a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

## 13.07 Gwneud penderfyniadau gan bwyllgorau eraill a sefydlir gan y Cyngor

Yn ddarostyngedig i Erthygl 13.08, bydd pwyllgorau eraill y Cyngor yn dilyn y rhannau hynny o Reolau Gweithdrefnau'r Cyngor a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn sy'n gymwys iddynt hwy.

**13.08 Gwneud penderfyniadau gan gyrff y Cyngor sy'n gweithredu fel tribiwnlysoedd**

Bydd y Cyngor, cynghorydd neu swyddog sy'n gweithredu fel tribiwnlys neu mewn dull lled-farnwrol neu sy'n penderfynu/ystyried (ac eithrio i bwrpas rhoi cyngor) hawliau dinesig a rhwymedigaethau neu gyfrifoldeb troseddol unrhyw berson, yn dilyn gweithdrefn briodol sy'n cyd-fynd â gofynion cyfiawnder naturiol a'r hawl i brawf teg a gynhwysir yn Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.